## ATODLEN 1

Y Rhaglith

### Darpariaethau sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru a arferir wrth wneud y Rheoliadau hyn

| *Y deddfiad sy'n rhoi pŵer* | |
|---|---|
| Deddf Plant 1989[(1)] | Adrannau 59(4)[(2)], 104(4)[(3)] ac Atodlen 6[(4)], paragraff 10(1) |
| Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014[(5)] | Adrannau 54(5) a (6), 83(5) a 196(2) |

**(1)** 1989 p. 41 ("Deddf 1989"). *Gweler* adran 105(1) o Ddeddf 1989 i gael y diffiniad o "prescribed".

**(2)** Mynegir bod y pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 59 o Ddeddf 1989 i gael ei arfer gan yr "appropriate national authority", a'i ystyr, fel y'i diffinnir yn adran 59(7) o Ddeddf 1989 (sydd wedi ei mewnosod gan adran 39 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p. 23) ("Deddf 2008") ac Atodlen 3, paragraff 23(6) iddi), o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru. Diwygiwyd yr adran hon hefyd gan Ddeddf Safonau Gofal 2000 (p. 14), Atodlen 4, paragraff 14(1) ac (8), a chan Ddeddf Plant 2004 (p. 31), adran 49(4). Mae diwygiadau eraill i'r adran hon nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

**(3)** Diwygiwyd adran 104 o Ddeddf 1989 gan Ddeddf Plant a Mabwysiadu 2006 (p. 20), Atodlen 2, paragraff 10(a) a chan Ddeddf 2008, Atodlen 3, paragraff 25. Gwnaed diwygiadau eraill i'r adran hon nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

**(4)** Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan baragraff 10(1) o Atodlen 6 i Ddeddf 1989 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y ddarpariaeth hon wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32). Diwygiwyd Atodlen 6 i Ddeddf 1989 yn ôl eu trefn gan adrannau 116 a 117(2) o Ddeddf Safonau Gofal 2000, a pharagraff 14(1) a (25) o Atodlen 4 ac Atodlen 6 iddi. Mae diwygiadau eraill i'r ddarpariaeth hon nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

**(5)** *Gweler* adran 197(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4) ("Deddf 2014") i gael y diffiniad o "penodedig", "a bennir" ac "a bennwyd" a "rheoliadau".